**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Mercher 7 Tachwedd 2018**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith a Claire Williams

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 7,8 & 10)

**Y Tîm Rheoli:** Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeorydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd: -

20 Medi 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Bwrdd Da Byw NFU Cymru.

2 Hydref 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Llywodraethu Chwarterol Llywodraeth Cymru / HCC. Rhoddwyd diweddariadau gan y naill a'r llall ynghylch adrodd ar weithgareddau a meysydd lle mae gweithio cydweithredol.

4 Hydref 2018 - Telegynhadledd diweddaru Bwrdd HCC

5 a 6 Hydref 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant yn cynrychioli HCC yng nghynhadledd flynyddol AIMS.

15 Hydref 2018 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod dros ginio gyda swyddogion o Lysgenhadaeth Seland Newydd. Bu trafod ynghylch Marchnadoedd cyfredol a goblygiadau Brexit caled.

21 - 23 Hydref 2018 – Ymunodd y Cadeirydd ac Aelodau o'r Bwrdd, Rachael Madeley Davies a Helen Howells, a'r tîm Gweithrediaeth yn Sioe Fasnach SIAL, Paris (Gweler Eitem 11c). Ar ddydd Llun y Sioe, bu'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Rheolwr Datblygu'r Farchnad yng nghinio blynyddol Cig o Brydain.

24 Hydref 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyd-gyfarfod briffio wedi ei drefnu gan NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru lle mynegwyd pryderon i Aelodau'r Cynulliad ynghylch dyfodol y diwydiant amaethyddol ar ôl Brexit.

1 Tachwedd 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghynhadledd flynyddol NFU Cymru.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Illtud Dunsford, Ogwen Williams, Gary Haggaty a Gareth Wilson.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.

Cafodd Helen Howells ei llongyfarch gan y Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, ar ei phenodiad i wasanaethau ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICfW).

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Medi 2018 (HCC 839)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Medi 2018 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Brexit a'n tir: diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru*

Nodwyd bod HCC wedi cyflwyno ei ymateb i'r uchod.

*Cais am Sylwadau ynghylch y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)*

Cafwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr o ymateb drafft HCC a gafodd ei rannu â'r Bwrdd ar 2 Tachwedd 2018.

Nodwyd na fyddai'n briodol i HCC, oherwydd ei gylch gwaith, ymateb i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr arolwg ymgynghorol. Fodd bynnag, yn ei ymateb, cododd HCC y mater o fethiant y farchnad yn y sector cig coch a'r angen i Ardoll Statudol barhau. Hefyd, nodwyd bod angen manteisio ar y cyfle i unioni'r annhegwch ynghylch dosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain.

Pwysleisiodd ymateb HCC ei bod yn hollbwysig fod y gwaith yn parhau i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol cyn gynted â phosibl er mwyn gallu dosbarthu'r Ardoll mewn modd sydd yn deg ac sydd yn cynnig ateb hirdymor.

Cytunodd y Bwrdd â chynnwys ymateb HCC.

Ymunodd y tîm Rheoli a’r Swyddog Gweithredol Cig Coch â’r cyfarfod.

6. **<u>I gael adborth yn dilyn y broses o werthuso Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol HCC</u>**

Dal yr eitem yn ôl - cyfrinachedd masnachol.

7. **<u>I ystyried yr adolygiad 6-mis o berfformiad Cynllun Gweithredol HCC 2018 / 2019 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ebrill – Medi 2018 (HCC 840)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Nodwyd bod y dangosyddion llwyddiant (KPI) yn y ddogfen yn ffordd o fesur cynnydd yn ystod 2018 / 2019. Lle cafodd dangosyddion newydd eu pennu, câi llinellau sylfaen eu sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol er mwyn mesur cynnydd yn y blynyddoedd i ddod.

Nodwyd y ceid y rhan fwyaf o’r mesuriadau yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol.

Roedd y Bwrdd yn fodlon â’r sefyllfa ar hyn o bryd.

8. **<u>I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill ar gyfer 2019/2020 (HCC 841)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Prif Weithredwr.

Argymhellodd y Weithrediaeth i’r Bwrdd y byddai’n briodol, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch Brexit a mamwladoli’r Ardoll, i gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ddal yr un fath ar gyfer 2019 / 2020 fel a ganlyn: -

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2019 / 2020** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi’i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi’i Dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2019 / 2020** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad.

Y camau nesaf: Câi argymhelliad y Bwrdd ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet ac, yn ddiweddarach, i Weinidogion Cymru sydd yn gyfrifol am bennu cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru.

9. **I gael diweddariad ynghylch y broses gynllunio ar gyfer Cynllun Corfforaethol HCC 2019 / 2022 a Chynllun Gweithredol HCC 2019 / 2020**

Cyflwynwyd papur am yr uchod gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Yn unol â Gweledigaeth 2025, dylai'r Cynllun Corfforaethol nodi'r meysydd allweddol o waith sy'n cael eu blaenoriaethu gan y Bwrdd er mwyn gwneud defnydd effeithiol o arian Ardoll Cig Coch Cymru yn ystod y tair blynedd 2019 / 2022. Argymhellodd y Weithrediaeth y dylai Cynllun Corfforaethol 2019 / 2022 fod yn seiliedig ar Gynllun Corfforaethol 2018 / 2021. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n rhaid ailedrych ar y Cynlluniau ac efallai y byddai'n rhaid ei hail-lunio a gwneud newid sylweddol o ran dosbarthu adnoddau pe bai Prydain yn cael cytundeb Brexit anfoddhaol. Yn amodol ar ganlyniad y trafodaethau Brexit, gall y bydd y Bwrdd yn cael gwahoddiad i weithdy cynllunio yn ystod mis Ionawr 2019.

Byddai Cynllun Gweithredol 2019 / 2020 yn amlinellu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

Cafodd yr amserlen gynllunio a ganlyn ei chymeradwyo gan y Bwrdd (yn amodol ar gytundeb Brexit boddhaol) Fodd bynnag, nodwyd y posibilrwydd y byddai'n rhaid newid amserlenni pe na cheid cytundeb boddhaol.

| **Dyddiad** | **Carreg filltir** |
|---|---|
| 10 Ionawr 2019 | Cyflwyno'r drafftiau cyntaf i'r Bwrdd |
| 27 Chwefror 2019 | Cyflwyno'r drafftiau diwygiedig i'r Bwrdd i'w cymeradwyo |
| 15 Mawrth 2019 | Anfon adroddiadau at Ysgrifennydd y Cabinet i'w cymeradwyo |
| 1 Ebrill 2019 | Cyflwyno Cynlluniau<br>(Cyhoeddi Cynllun Corfforaethol ar wefan HCC) |

Cafodd yr uchod ei gytuno gan y Bwrdd.

10. **Adroddiadau HCC**

a. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 842)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *Adroddiadau HCC / Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2018 (HCC 843)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd bod yr incwm Ardoll yn fwy na'r gyllideb ar gyfer y cyfnod am y cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y defaid a laddwyd oherwydd masnach allforio gryf. Roedd gwariant ar hyn o bryd yn llai na'r gyllideb am fod rhai gweithgareddau wedi digwydd yn hwyrach na'r disgwyl. Ceid gwell trefn yn ystod y chwarter nesaf.

c. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 844)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

***Datblygu'r Farchnad***

Roedd presenoldeb HCC yn arddangosfa fwyd ryngwladol SIAL, Paris, yn llwyddiannus o ran ymgysylltu â darpar gwsmeriaid a chwsmeriaid presennol. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol ar stondin HCC ar y dydd Llun yn annerch cwsmeriaid rhyngwladol mewn derbyniad. Treuliodd Ysgrifennydd y Cabinet gryn amser hefyd yn cyfarfod â'r holl allforwyr a oedd yn bresennol yn trafod materion cyfredol yn ymwneud â'r diwydiant ac effaith Brexit ar y sector lladd-dai.

Bu dau aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynghori Marchnata (Helen Howells, Cadeirydd y Pwyllgor a Rachael Madeley Davies) yn y sioe fasnach er mwyn cael profiad a dealltwriaeth bellach o bresenoldeb HCC mewn ffeiriau rhyngwladol yn dangos Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI fel brandiau amlwg ledled y byd. Cyflwynwyd adroddiad am eu presenoldeb er gwybodaeth.

Wrth symud ymlaen, nodwyd bod trefniadau ar y gweill i HCC fod â phresenoldeb ar y cyd â'r Bwrdd Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Quality Meat Scotland (QMS) mewn nifer o sioeau masnach fel rhan o gytundeb y gronfa sydd wedi ei chlustnodi: -

Sirah, Lyon (Chwefror 2019)
Sial, Canada (Ebrill / Mai 2019)
Hofex (Mai 2019)

Anuga, Yr Almaen (Hydref 2019)
Foodex, Siapan (Mawrth 2020)
Tavola, Gwlad Belg (Mawrth 2020)

Yn ogystal, roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn Gulfood, Dubai (Chwefror 2019) a fyddai’n cael ei ariannu gan HCC / Llywodraeth Cymru.

***Datblygu'r Diwydiant***

Roedd gwaith adran Datblygu’r Diwydiant yn dal i ganolbwyntio ar y prosiect Meincnodi Cig Coch a’r Rhaglen Datblygu Cig Coch.

*Prosiect Meincnodi Cig Coch*

Nodwyd bod 470 o ffermwyr wedi cwblhau’r broses hyd yma. Y targed oedd cofrestru 2,000 o ffermwyr i'r prosiect cyn y dyddiad cau ar 10 Rhagfyr 2018.

Câi'r prosiect ei hyrwyddo ymhellach mewn digwyddiadau sydd i ddod, fel cynhadledd flynyddol HCC a'r Ffair Aeaf, a cheid gweithgarwch pellach yn y cyfryngau yn ystod yr wythnosau nesaf.

***Cyfathrebu***

Wedi'i gynnwys o dan eitemau agenda ar wahân - 11f ac 11g.

*d.* *I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2018*

Rhoddodd Rheolwraig Datblygu'r Farchnad gyflwyniad ynghylch gweithgaredd HCC ar gyfer ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI yn 2018.

*e.* *I gael diweddariad am Fenter Strategol HCC – Y Rhaglen Datblygu Cig Coch (wedi’i hariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020)*

Roedd y gwaith wedi dechrau a chafodd staff eu penodi i gyflawni'r prosiectau: -

Dr Rebekah Stuart, Swyddog Gweithredol dros Iechyd Diadelloedd a Buchesi
Gwawr Parry, Swyddog Geneteg Diadelloedd
Dr Eleri Price, Swyddog Gweithredol Ansawdd Cig

Byddai recriwtio pellach yn cael ei wneud maes o law.

*f.* *I gael briff ar Sesiwn “Gofyn i'r Bwrdd” HCC ar gyfer talwyr Ardoll a Chynhadledd Flynyddol HCC - Dydd Iau 8 Tachwedd 2018 (HCC 845)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Cyfathrebu. Roedd y Bwrdd yn fodlon ar yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch penawdau Brexit, masnach a marchnata, corfforaethol a ffermio a’r gadwyn gyflenwi.

Ceid sesiwn briffio ar gyfer y Bwrdd cyn y gynhadledd ar 8 Tachwedd 2018.

Byddai'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu yn adolygu cynhadledd flynyddol HCC, gan gynnwys amseriad y digwyddiad yn y calendr blynyddol, yn ei gyfarfod nesaf.

*g.* *Digwyddiadau i ddod i gynnwys diweddariad o bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf 26 – 27 Tachwedd 2018 (HCC 846)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Cyfathrebu.

Byddai gan HCC bresenoldeb yng nghynhadledd *Nursing in Practice* yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, ar 27 Tachwedd 2018. Rhagwelwyd y byddai oddeutu 200 o weithwyr iechyd proffesiynol yn bresennol a byddai HCC yn amlygu pwysigrwydd cig coch mewn diet cytbwys. Yno hefyd, fel rhan o bresenoldeb HCC ac fel prif siaradwr, fyddai Dr Carrie Ruxton a fyddai'n rhoi anerchiad ar y thema "Cig Coch: Ffrind neu Elyn".

Byddai presenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf eleni yn dechrau fel arfer gyda'r brecwast i'r diwydiant a gynhelid yn Hafod a Hendre. Byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol.

Roedd rhaglen lawn o weithgareddau ar y gweill ar gyfer stondin HCC eleni. Byddai cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru, Shane Williams a chwaraewr proffesiynol Rygbi Menywod Cymru, Elinor Snowshill, yn bresennol i gefnogi'r ymgyrchoedd i ddefnyddwyr ac i dynnu sylw at negeseuon allweddol ynghylch pwysigrwydd cig coch fel rhan o ddiet iach a chytbwys. Ceid arddangosiadau coginio a chyfleoedd i ymuno â'r Prosiect Meincnodi Cig Coch. Yn ogystal, byddai'r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael ei hyrwyddo ar y stondin

## 11. Pwyllgorau HCC

### Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

*a.* *I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Tachwedd 2018*

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

*b.* *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2018 (HCC 849)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

### Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu

c. *<u>I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Medi 2018 (HCC 848)</u>*

Cymerwyd bod cofnodion drafft y cyfarfod Pwyllgor uchod wedi'u darllen a chafwyd crynodeb gan Gadeirydd y Pwyllgor: -

- Roedd y Pwyllgor wedi trafod yn fanwl yr adborth o Sioe Frenhinol Cymru. Nodwyd hyn gan y Pwyllgor Gwaith a byddai'n cael ei ystyried wrth gynllunio sioe 2019

- Roedd y Pwyllgor wedi cytuno y byddai'r mater o ystyried opsiynau ar gyfer lleoliad parhaol ar Faes y Sioe yn parhau fel eitem agenda

- Trafodwyd y Gynhadledd Flynyddol a'r Ffair Aeaf gan y Pwyllgor (Gweler Eitem 11f ac 11g)

- Trafodwyd sefydlu llinell sylfaen ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, ynghyd â datblygu calendr digwyddiadau cyfunol.

d. *<u>I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2018 (HCC 849)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

**<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)</u>**

e. *<u>I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori R&D&KE a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Hydref 2018</u>*

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor: -

- Roedd y prosiect dan gymorth, ‘Dylunio a Datblygu Strategaeth Triniaeth Ddewisol wedi'i Thargedu (TST) ar gyfer Nematodau mewn Mamogiaid Oddeutu Wyna’, wedi penodi myfyriwr PhD, Eyry Williams, i wneud y gwaith yn IBERS.

- Rhoddwyd diweddariad ar y portffolio prosiectau cyfredol a'r prosiectau wedi eu hariannu a’u clustnodi - Yr alwad gyntaf am brosiectau ‘Asesu effeithlonrwydd mentrau bridio‘ ‘Gwella goroesiad ŵyn a lloi sugno newydd-anedig’. Cyflwynwyd tri thendr i’w hystyried ar gyfer ‘Asesu effeithlonrwydd mentrau bridio’. Ar ôl gwerthuso, dyfarnwyd y tendr i Abacus Bio. Cafwyd pedwar tendr ar gyfer ‘Gwella goroesiad ŵyn a lloi sugno newydd-anedig’; ar ôl gwerthuso, dyfarnwyd y tendr i Brifysgol Caeredin.

  Roedd GrassCheckGB hefyd wedi'i gynnwys o dan y gronfa wedi ei chlustnodi. Roedd y prosiect hwn yn efelychu gwaith GrassCheckNI (Gogledd Iwerddon). Roedd yr holl gyrff Ardoll ar hyn o bryd yn cydweithio i recriwtio hyd at 25 o ffermydd i’r prosiect er mwyn dechrau mesur yn y gwanwyn.

- Cyflwynwyd cysyniad am brosiect PhD i'r Pwyllgor o Brifysgol Lerpwl, sef '*Adnabod genynnau ymwrthedd i gyffuriau yn Fasicola hepatica gan ddefnyddio dull ffenoteipio in vitro a genoteipio cyfunol*'. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynnig hwn yn ei ddyddiau cynnar ac y bwriadwyd ei gyflwyno i Gyngor Mewnol y Brifysgol.

- Gweithdy Pwyllgor Ymgynghorol Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) – Roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn y cyfarfod i drafod y cwestiynau a ganlyn:

1. A yw fformat presennol Pwyllgor Ymgynghorol HCC ar R&D&KE yn addas at y diben; a yw'n bodloni anghenion yr aelodau a HCC?

   Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r fformat presennol.

2. Beth yw amcanion allweddol Ymchwil a Datblygu i HCC o ran marchnadoedd sy'n newid a'r newid mewn tueddiadau?

   Cytunwyd bod y blaenoriaethau yn cael eu cydnabod yng nghynllun gwaith y Cynllun Datblygu Gwledig ond bod awydd i gynyddu nifer y prosiectau yn y portffolio sy'n ategu hyn.

Cafodd Gwawr Parry ei diolch gan Gadeirydd y Pwyllgor am ei gwaith a'i chefnogaeth i'r Pos y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

*f.* <u>*I dderbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor* R&D&KE *a gynhaliwyd ddydd Mercher 13 Mehefin 2018 (HCC 850)*</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

**<u>Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)</u>**

*g.* <u>*I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor FHHWG a gynhaliwyd ddydd Mercher 31 Hydref 2018*</u>

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor: -

- Daeth nifer dda i'r cyfarfod; roedd 15 aelod yn bresennol.

- Roddwyd cyflwyniad gan Siân Mitchell o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn canolbwyntio ar y canlyniadau a gafodd ddiagnosis yn labordai APHA yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y clefyd mwyaf cyffredin a gafodd ddiagnosis mewn gwartheg oedd Clefyd Johne, ac mewn defaid y Clafr oedd y clefyd mwyaf cyffredin.

- Cafwyd trafodaeth hefyd ar yr achosion diweddar o Salmonela a oedd yn gysylltiedig â chig defaid.

- Rhoddodd Neil Paton ddiweddariad ar brosiect GwareduBVD a rhoddodd amlinelliad hefyd o sut y gellid datblygu rhaglen i reoli'r Clafr mewn Defaid. Roedd manylion am sut y byddid yn ymdrin â hyn wedi cael eu cyflwyno ar ffurf papur diwydiant i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oedd unrhyw gyllid wedi'i gadarnhau.

- Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar y Rhaglen Datblygu Cig Coch, yn benodol y prosiect Cynllunio Iechyd Diadelloedd a Buchesi. Croesawodd y Pwyllgor benodiad Dr Rebekah Stuart.

13. **Papur er gwybodaeth: Arferion i wella oes silff Cig Oen Cymru PGI (HCC851)**

    Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd groeso gan y Bwrdd.

14. **Unrhyw Fater Arall –** Nid oedd unrhyw faterion eraill.

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – Dydd Iau 10 Ionawr 2019.

**Llofnodwyd…………………………………**
**Cadeirydd HCC**